**Hawdd ei ddeall**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa bod yn greadigol

## Arian ar gyfer prosiectau dysgu creadigol mewn ysgolion



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Bod yn greadigol - dysgu creadigol drwy'r celfyddydau**'.

**Hydref 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** creative.learning@arts.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Cyflwyniad....4

Ynglŷn â'r gronfa hon....5

Sut i ddewis person creadigol....6

Ynglŷn â Plwg....7

Yr hyn y byddwn ni'n talu amdano....8

Pwy all wneud cais....9

Sut i wneud cais....10

Pryd i wneud cais....11

Yr hyn rydyn ni am ei wybod....12

Yr hyn rydyn ni am ei gael gennych chi....13

Rhagor o wybodaeth....14

Geiriau anodd....15

# Cyflwyniad

Ni yw **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae gynnon ni **gronfa** o'r enw **Bod yn Greadigol**.



Mae **cronfa** yn arian y gall pobl neu sefydliadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.



Mae'r **gronfa** hon yn rhan o'r rhaglen **Dysgu Creadigol drwy'r celfyddydau**.



Mae'r **gronfa** hon ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 mlwydd oed.




Bydd y ddogfen hon yn dweud popeth wrthych chi am y **gronfa** **Bod yn Greadigol**. Ac os yw'n iawn i'ch ysgol. Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthych chi sut i wneud cais am y **gronfa** hon.

# Ynglŷn â'r gronfa hon



Gwyddon ni fod **dysgu creadigol** yn helpu dysgwyr i wneud yn well yn yr ysgol



Bydd y **gronfa** hon yn helpu ysgolion yng Nghymru i gynnal prosiectau **dysgu creadigol**.



Rhaid i ysgolion weithio gyda pherson creadigol i wneud y prosiectau cyffrous hyn.



Gall ysgolion wneud cais am hyd at £1000.




Bydd y **gronfa** yn helpu i dalu am 4 diwrnod yn gweithio gyda pherson creadigol.




Gall ysgolion dorri'r amser hwn unrhyw ffordd maen nhw'n dymuno. Fel dros 4 wythnos.

# Sut i ddewis person creadigol



Dylech chi ddod o hyd i berson creadigol i weithio gyda nhw cyn i chi wneud cais. Rhowch eu henw a'u cyfeiriad e-bost i ni cyn i chi wneud cais.



Dylai'r person creadigol fod wedi gweithio ar **brosiect cynllun ysgolion creadigol arweiniol** o'r blaen. A dylen nhw fod wedi gwneud ein hyfforddiant.



Os nad ydyn nhw wedi gwneud ein hyfforddiant, rhaid iddyn nhw wylio'r ffilm **cyflwyniad i ddysgu creadigol**.



Dylai fod gan y person creadigol dystysgrif **DBS** lawn a chyfredol.



Gwiriad yw hwn i weld a oes gan rywun gofnod troseddol.

# Ynglŷn â Plwg

Os oes angen help arnoch chi i ddod o hyd i berson creadigol i weithio gyda nhw, gall **Plwg** helpu.



Mae **Plwg** yn helpu pobl greadigol i ddod o hyd i bobl eraill i weithio gyda nhw. Fel ysgolion.




Gallwch chi ddefnyddio gwefan **Plwg** i chwilio am berson creadigol i weithio gyda nhw. Gallwch chi ymweld â gwefan **Plwg** yn: [plwg.cymru](plwg.cymru)

# Yr hyn y byddwn ni'n talu amdano




Rydyn ni'n arbennig o awyddus i helpu ysgolion nad ydyn nhw wedi cael **cronfeydd dysgu creadigol** o'r blaen.



Dylid defnyddio'r **gronfa** hon i dalu'r person creadigol. Dylid talu £250 y dydd i'r person creadigol. Neu £125 am hanner diwrnod.



Mae'r taliad hwn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i gynllunio'r prosiect.



Ni ddylid defnyddio'r **gronfa** hon i dalu am gostau teithio.



Mae angen i ysgolion dalu am unrhyw ddeunyddiau ac offer eu hunain.

# Pwy all wneud cais




Gall unrhyw ysgol sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol wneud cais am y **gronfa** hon.



Rhaid i chi gael athro/athrawes a fydd yn rhedeg y prosiect. Gall fod yn unrhyw athro/ athrawes.



Mae angen i'r athro/athrawes yma wylio'r ffilm **Cyflwyniad i ddysgu creadigol**.



Bydd hyn yn dangos i'r athro/athrawes sut i ddefnyddio offer **dysgu creadigol**.



A sut i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu mewn ffordd greadigol.

# Sut i wneud cais




Dim ond ysgolion all wneud cais am y **gronfa** hon




Mae angen i chi gofrestru ar ein porth ar-lein.



Yna aros am 5 diwrnod gwaith.





Ar ôl 5 diwrnod gwaith, gallwch chi wneud cais ar-lein.



Os ydych chi eisiau help i ddefnyddio'r porth ar-lein, anfonwch e-bost aton ni: creative.learning@arts.wales

# Pryd i wneud cais




Gallwch chi wneud cais am y **gronfa** hon unrhyw bryd.



Byddwn ni'n dweud wrthych chi o fewn 4 wythnos os gallwn ni roi arian o'r **gronfa** i chi.




Dylech chi wneud cais o leiaf **5 wythnos** cyn eich bod chi am i'ch gweithgaredd ddechrau.

# Yr hyn rydyn ni am ei wybod




Ar eich ffurflen gais, bydd angen i chi ddweud wrthon ni:



- Ynglŷn â'r gweithgaredd rydych chi am i ni **ei ariannu**. Er enghraifft, y themâu a'r pynciau y byddwch chi'n ymdrin â nhw. A sut y byddwch chi'n ysbrydoli'r dysgwyr.



- Sut y byddwch chi'n defnyddio offer dysgu creadigol yn eich gweithgaredd.



- Sut bydd eich prosiect o fudd i'r dysgwyr.



- Ynglŷn â'ch dysgwyr. A sut rydych chi'n meddwl y bydd y prosiect hwn yn eu cyffroi am ddysgu eto.

# Yr hyn rydyn ni am ei gael gennych chi



Rydyn ni am glywed gennych chi ar ôl eich prosiect.




Rydyn ni am wybod sut rydych chi wedi gwneud dysgu'n fwy creadigol a chyffrous.



Gallwch chi anfon ffilmiau, lluniau neu straeon ysgrifenedig aton ni am eich prosiect.



Hoffen ni glywed gan ddysgwyr a neu staff.




Rhaid i chi ysgrifennu adroddiad cwblhau ar ôl eich prosiect.




Ni fyddwn ni'n rhoi mwy o arian i chi yn y dyfodol os na fyddwch chi'n ysgrifennu'r adroddiad.


# Rhagor o wybodaeth



Os oes angen help arnoch gyda'ch cais, cysylltwch â ni trwy e-bost: [creative.learning@arts.wales](mailto:creative.learning@arts.wales)



Rydyn ni am i bawb ddeall ein dogfennau.




Rydyn ni'n gwneud ein dogfennau mewn print bras, hawdd eu deall, braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.




Os oes angen ein dogfennau arnoch chi mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, gofynnwch i ni.




Mae gynnon ni bolisi cyfle cyfartal. Mae hyn yn golygu ein bod ni am i bawb gael yr un cyfleoedd i weithio gyda ni.

# Geiriau anodd

### Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall pobl neu sefydliadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.